Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Llangollen
LL20 7LB

16/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog, sydd mewn ffederasiwn gydag Ysgol Cynddelw, yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn adnabod meysydd i'w gwella yn amserol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau

- Mae'r pennaeth wedi datblygu prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol yn briodol. Erbyn hyn, mae'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n fwy pwrpasol ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.
- Mae'r pennaeth wedi sefydlu amserlen addas er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth sy'n cynnwys ystod ddefnyddiol o weithgareddau monitro cadarn. Mae arweinwyr yn cynnwys barn y staff yn bwrpasol wrth drafod cryfderau'r ddarpariaeth a'r hyn sydd angen ei wella.
- Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio'r wybodaeth o'r gweithgareddau monitro hyn i osod blaenoriaethau gwella yn amserol.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff yn cyd-fynd yn fwriadus â'r blaenoriaethau gwella. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau disgyblion dros amser.

- Mae'r pennaeth yn trefnu bod y llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am y ddarpariaeth. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol ac yn ystyried ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu ac yn eu galluogi i gefnogi a herio arweinwyr yn fwy effeithiol.

## Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol

- Mae arweinwyr yn cefnogi staff i dreialu a phrofi ystod o drefniadau ar gyfer darparu ar gyfer diwallu anghenion disgyblion. Mae arweinwyr yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud o ran yr agwedd hon.
- Mae arweinwyr yn trefnu ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol sy'n datblygu hyder staff a'u gallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n herio disgyblion yn addas. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cydweithio i graffu ar lyfrau, ymgymryd â theithiau dysgu, a chynnal trafodaethau proffesiynol i rannu arferion addysgu effeithiol.
- Yn gyffredinol, mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion disgyblion yn briodol. Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn dda ac maent yn mwynhau tasgau sy'n eu herio. Er hyn, nid yw gweithgareddau bob tro'n herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn anghyson. Yn yr arferion cryfaf, mae disgyblion yn gwneud dewisiadau ystyrlon ac annibynnol am sut i gyflwyno eu gwaith a chwblhau tasgau. Mae disgyblion yn cefnogi ei gilydd yn hyderus ac yn dyfalbarhau â'u cyfoedion i ddatrys problemau'n bwrpasol.
- Yn yr arferion addysgu gorau, mae holi bwriadus gan athrawon yn adalw dysgu blaenorol disgyblion yn bwrpasol, yn herio disgyblion i ymhelaethu ar eu hatebion ac yn eu cefnogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn fwriadus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6652140

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol